# Y Gymraeg Mewn Arfer Proffesiynol (ECAD6022-C) 2025-26



**Bethan Griffiths**

bethan.griffiths@pcydds.ac.uk

Dydd Iau, 5ed o Chwefror 2026

# Nod y ddarlith



- **Adolygu rheolau iaith.**
- **Cyfieithu ac osgoi defnyddio ymdroddion Saesneg wrth ysgrifennu yn y Gymraeg.**
- **Trawsieithu yn y dosbarth.**
- **TSI  - edrych ar y ddolen ymarfer.**

# Cwis Adolygu'r Treigladau

- [https://wordwall.net/resource/106916145/adolygu-treigladau-1](https://wordwall.net/resource/106916145/adolygu-treigladau-1)

**Saesneg yn Gymraeg. Trafodwch:** Ydych chi'n defnyddio'r ymadroddion Saesneg canlynol? Ceisiwch eu cywiro.



# Saesneg yn Gymraeg

Codwch lan ar eich traed.§1

Peidiwch gweiddi allan!

Meddyliwch am un peth gallwch chi wella ar…

Mae angen i chi dorri hwn mas/allan.

Dewch lan i ffrynt y dosbarth.

Cofiwch arafu'r bêl lawr.

Trowch y golau bant.

Da iawn Jac, so, fel gest ti'r ateb yna?

# Ble mae dylanwad y Saesneg yn y frawddeg?



Rhowch gynnig ar gywiro'r frawddeg ganlynol:

Rhai amserau dw i'n mynd i ymarfer côr.

**Weithiau**, dw i'n mynd i ymarfer côr.

# Ble mae dylanwad y Saesneg yn y frawddeg?



Rhowch gynnig ar gywiro'r frawddeg ganlynol:

Eisteddwch lawr blant, mae'n amser stori.

**Eisteddwch** blant, mae'n amser stori.

# Ble mae dylanwad y Saesneg yn y frawddeg?



Rhowch gynnig ar gywiro’r frawddeg ganlynol:

Edrycha am y gair i fyny yn y geiriadur.

**Chwilia** am y gair yn y geiriadur.

# Ble mae dylanwad y Saesneg yn y frawddeg?



Rhowch gynnig ar gywiro'r frawddeg ganlynol:

Ga i fenthyg beiro? Mae fy un i wedi rhedeg allan!

Ga i fenthyg beiro? Mae fy un i wedi **sychu**!

# Ble mae dylanwad y Saesneg yn y frawddeg?



Rhowch gynnig ar gywiro’r frawddeg ganlynol:

Mae’r gloch wedi mynd… gawn ni fynd i chwarae?

Mae’r gloch wedi **canu**… gawn ni fynd i chwarae?

# Ble mae dylanwad y Saesneg yn y frawddeg?



Rhowch gynnig ar gywiro'r frawddeg ganlynol:

Bydd angen i chi ffeindio allan yr atebion.

Bydd angen i chi **ddarganfod yr/ ddod o hyd i'r** atebion.

# Cyfieithu…



Cyfieithwch y brawddegau hyn heb ddefnyddio
**‘i fyny/lan, off, lawr, mas/allan, i ffwrdd, ymlaen’** …

1. We’ll have to sort the books out.
2. We can carry on with the work after playtime.
3. Schools will be breaking up early this year.
4. Don’t forget to wash up after you tidy up children!
5. I don’t want the children to miss out.
6. Can you work the answer out Ellis?
7. The children get on well together.
8. Write the answers down on your paper.



# Atebion…

1. Bydd rhaid i ni roi trefn ar y llyfrau.
2. Gallwn ni (Rydyn ni'n gallu) b/parhau gyda'r gwaith ar ôl amser chwarae.
3. Bydd ysgolion yn gorffen yn gynnar eleni.
4. Peidiwch ag anghofio golchi'r llestri ar ôl i chi dacluso.
5. Dw/Dydw i ddim eisiau i'r plant golli'r cyfle.
6. Wyt ti'n gallu darganfod/meddwl am yr ateb Ellis?
7. Mae'r plant yn cyd-dynnu'n dda / gweithio'n dda gyda'i gilydd / ffrindiau da.
8. Ysgrifennwch yr atebion ar eich papur.

# 9. Cyfieithu 'the… of the …' o'r saesneg

Mae angen bod yn ofalus iawn wrth gyfieithu ymadroddion lle ceir "the …. of the" yn Saesneg. Yn Saesneg mae angen **the** ac **of the** mewn ymadroddion fel y canlynol:

***the*** *chairperson* ***of*** *the meeting*
***the*** *main point* ***of*** *the poem*
***the*** *main character* ***of*** *the story*

Cofiwch 'Pobol y Cwm' - **The** People **of the** Valley

Wrth gyfieithu, does dim angen cyfieithu'r *'the'* cyntaf na'r ***'of'***

**cadeirydd y cyfarfod**
**prif bwynt y gerdd**
**prif gymeriad y stori**

# 10. Trafferth gyda 'had'

Mae tueddiad i ddefnyddio "cael" yn anghywir wrth gyfieithu *have / got.*

***I had**…*

| | | |
|---|---|---|
| Mi ges i/ Cefais i | Roedd rhaid i mi | Roeddwn i wedi |
| Roedd gen i | Roedd … gyda fi | |

| | |
|---|---|
| I **had** to go… | Roedd rhaid i mi fynd |
| I **had** a great day… | Cefais i ddiwrnod da |
| The children **had** break at 2 o'clock… | Cafodd y plant egwyl am ddau o'r gloch |
| They **had** salad for ginio… | Cawson nhw salad i ginio |
| He **had** to leave… | Roedd rhaid iddo fe adael |
| I **had** lived in Llandudno… | Roeddwn i wedi byw yn Llandudno. |
| She **had** shopped in London… | Roedd hi wedi siopa yn Llundain. |
| He **had** something to say… | Roedd ganddo fe rywbeth i'w ddweud. |

# Eich tro chi…



Cyfieithwch y brawddegau canlynol:

1. On the other side of the classroom.
2. I had a great time on the trip.
3. Half the children in the class .
4. They had to leave break time.
5. The notes of the last lesson.
6. One of his students.
7. The other side of the argument.
8. The headteacher’s office.

# Atebion

1. Ar ochr arall yr ystafell.
2. Cefais (Ces) i amser da ar y daith.
3. Hanner y plant yn y dosbarth.
4. Roedd rhaid iddyn nhw adael amser egwyl.
5. Nodiadau'r wers ddiwethaf.
6. Un o'i fyfyrwyr (e/o).
7. Ochr arall y ddadl.
8. Swyddfa'r prifathro/brifathrawes.

# Trawsieithu…

Y term yn Saesneg ydy: *'Translanguaging.'*

Bathwyd y term hwn i ddisgrifio proses o glywed gwybodaeth mewn un iaith a'i thrafod/ ysgrifennu mewn iaith arall.

Testun ymchwil Cen Williams ym Mangor yn yr 1980au.

Ymchwil yn edrych ar strategaethau i helpu dysgwyr i ddefnyddio dwy iaith mewn gwersi.

# Trawsieithu…

## Beth ydy trawsieithu?

Sefyllfa lle rydym yn **derbyn gwybodaeth** mewn un iaith ac yn ei **defnyddio** yn y llall, e.e:

Darllen yn Saesneg ond yna'n ysgrifennu yn Gymraeg.
Gwrando yn Saesneg ond yna'n siarad yn Gymraeg.

Wrth **drawsieithu** yn ysgrifenedig:
Rydym yn:

- chwilio am y **prif syniadau** mewn darn (e.e. Saesneg)

- cyfleu'r **prif syniadau** hyn yn yr iaith arall (e.e. Cymraeg) gan gadw'r iaith mor syml a dealladwy ag sy'n bosibl.

# Munud i feddwl…



**Felly pam bod trawsieithu yn bwysicach nag erioed?**

# ‘Mae Ieithoedd yn ein cysylltu â’n gilydd’- Canllawiau Cwricwlwm i Gymru.

## Disgrifiadau dysgu

### Mae ieithoedd yn ein cysylltu â’n gilydd.

| Cam cynnydd 1 | Cam cynnydd 2 | Cam cynnydd 3 | Cam cynnydd 4 | Cam cynnydd 5 |
|---|---|---|---|---|
| Rwy’n dechrau bod yn ymwybodol o gysylltiad rhwng iaith(ieithoedd) a diwylliant, ac rwy’n datblygu ymdeimlad o berthyn. | Rwy’n gallu adnabod bod cysylltiad rhwng ieithoedd, diwylliant a’r ymdeimlad sydd gen i o’m hunaniaeth Gymreig. | Rwy’n gallu deall bod cysylltiadau rhwng iaith, diwylliant a hunaniaeth a bod rhain yn amrywio o fewn Cymru ac o amgylch y byd. | Rwy’n gallu deall sut y gall ieithoedd feithrin ymdeimlad o berthyn i’r gymuned leol a byd-eang.<br><br>Rwy’n gallu archwilio a dadansoddi sut mae ieithoedd yn effeithio ar hunaniaeth a diwylliant, a deall bod eu dysgu yn cynnig cyfleodd ehangach yng Nghymru ac mewn cyd-destunau rhyngwladol. | Rwy’n gallu dangos agwedd agored tuag at ddysgu am wahanol ieithoedd a gwahanol ddiwylliannau Cymru a’r byd.<br><br>Trwy ddysgu am ieithoedd, rwy’n gallu mynegi sut mae’r cysylltiad rhwng ieithoedd a diwylliant yn fy mharatoi i fod yn ddinesydd i Gymru a’r byd. |
| Rwy’n dechrau deall bod gwahanol ieithoedd yn fy amgylchedd.<br><br>Rwy’n dechrau siarad â’m cyfoedion yn iaith y lleoliad/ysgol. | Rwy’n gallu deall bod pobl yn defnyddio gwahanol ieithoedd. | Rwy’n gallu cyfathrebu mewn ystod cynyddol o ieithoedd. | Rwy’n gallu defnyddio fy ngwybodaeth o sut mae ieithoedd yn gweithio i gefnogi fy nysgu pellach mewn ieithoedd. | Rwy’n gallu cyfathrebu, rhyngweithio a chyfryngu mewn sawl iaith, ac yn ystyried fy hun yn amlieithog. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Rwy'n dechrau deall bod nodweddion tebyg a gwahanol rhwng ein hieithoedd. | Rwy'n gallu adnabod a thrafod cysylltiadau, nodweddion cyffredin a nodweddion gwahanol rhwng yr ieithoedd rwy'n eu siarad a'r rhai rwy'n eu dysgu.<br><br>Rwy'n gallu deall sut a pham mae ieithoedd wedi esblygu, ac yn parhau i esblygu. | Rwy'n gallu defnyddio'r hyn rwy'n ei wybod am gysylltiadau, nodweddion cyffredin a nodweddion gwahanol rhwng ieithoedd i gefnogi fy sgiliau dysgu ieithoedd.<br><br>Trwy archwilio proses esblygiad iaith ac etymoleg, rwy'n gallu gwella fy nealltwriaeth o adeiladwaith iaith. | Rwy'n gallu cymhwyso'r hyn rwy'n ei wybod am gysylltiadau, nodweddion cyffredin a nodweddion gwahanol rhwng ieithoedd i wella fy nghyfathrebu.<br><br>Rwy'n gallu defnyddio'r hyn rwy'n ei wybod am esblygiad iaith ac etymoleg i ddyfnhau fy nealltwriaeth o adeiladwaith iaith. |
| | | Rwy'n gallu adnabod a deall gwahanol acenion a thafodieithoedd. | Rwy'n gallu addasu a bod yn sensitif i amrywiaeth o fewn ieithoedd a deall bod amrywiaeth yn digwydd o fewn gwahanol grwpiau cymdeithasol, rhanbarthol ac ieithyddol. | Mae gen i agwedd gadarnhaol tuag at wahanol acenion a thafodieithoedd ac rwy'n gwerthfawrogi amrywiaeth iaith. |
| | Rwy'n dechrau defnyddio gwybodaeth sydd wedi'i chyflwyno mewn un iaith a'i mynegi yn fy ngeiriau fy hun mewn iaith arall. | Rwy'n gallu derbyn gwybodaeth mewn un iaith a'i haddasu at wahanol ddibenion mewn iaith arall. | Rwy'n gallu cymhwyso fy sgiliau trawsieithu er mwyn cefnogi dysgu ieithoedd cyfarwydd ac ieithoedd newydd. | Rwy'n gallu adnabod, yn annibynnol, gyfleoedd i roi fy sgiliau trawsieithu ar waith er mwyn cyfoethogi'r modd rwy'n dysgu a chyfathrebu. |

# Beth ydy trawsieithu a sut gallwn ei ddefnyddio?

Y diffiniad symlaf ydy sefyllfa lle rydym yn **derbyn gwybodaeth** mewn un iaith ac yn ei **defnyddio** yn y llall e.e.

**Darllen yn Saesneg → Ysgrifennu yn Gymraeg /**

**Gwrando yn Saesneg → Siarad yn Gymraeg**

# Beth ydy'r gwahaniaeth rhwng cyfieithu a thrawsieithu?

| **Cyfieithu** | **Trawsieithu** |
|---|---|
| Rhaid trosglwyddo'r testun yn ei gyfanrwydd o un iaith i'r llall. | Rhaid trosglwyddo ystyr y darn yn gyffredinol i iaith arall gan ddefnyddio <u>eich geiriau eich hun</u>. |

# Pwyntiau i'w cofio wrth drawsieithu…



- **DARLLEN** darn yn sydyn ac yn arwynebol er mwyn cael syniad o'r cynnwys.
- Nodi'r pwyntiau yr ydych wedi sylwi arnynt.
- Darllen y darn eto yn fanwl.
- Beth ydy prif bwynt y darn?
- Beth ydy'r is-bwyntiau? Gwnewch bwyntiau bwled neu fap meddwl.
- Ceisiwch wneud nodiadau yn Gymraeg heb ddibynnu ar y darn. Peidiwch â chyfieithu gair am air.

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant University of Wales Trinity Saint David
Yr Athrofa Centre for Education
RHAGORiaith
www.athrofa.cymru

# Pwyntiau i’w cofio wrth drawsieithu…



- **Crynhowch** gynnwys y darn (i draean y gwreiddiol) gan gofio**:**
  - peidio ychwanegu eich barn / eich syniadau eich hun.
  - peidio â chynnwys enghreifftiau, oni bai eu bod yn hanfodol.
  - osgoi ailadrodd
  - defnyddio eich geiriau eich hun.
  - cadw’r brawddegau yn weddol fyr.
- Cofiwch wirio eich sillafu, cenedl enwau, treigladau a threfn brawddegau.
- Defnyddiwch Cysill i wirio’ch gwaith.

# Ystyriwch…



Ydych chi'n meddu ar y sgìl o drawsieithu?

Ydy disgyblion yn ein hysgolion yn meddu ar y sgìl o drawsieithu?

Fedrwch chi feddwl am enghreifftiau neu dasgau?

# Beth am … ?

…drosglwyddo gwybodaeth a ddarllenwyd mewn un iaith i'r llall yn ysgrifenedig.

…gymharu barddoniaeth, storïau, nofelau a.y.y.b. ar yr un pwnc neu thema.

…grynhoi gwybodaeth a gyflwynir mewn iaith arall, e.e. gwylio clip ffilm cyfrwng Saesneg er mwyn dysgu ffeithiau am bwnc penodol.

…ddarllen testunau o ddwy iaith wahanol am yr un testun er mwyn cywain gwybodaeth.

# Eich tro chi…




- **Darllenwch** y testun ffeithiol am Malala Yousafzai (sleid canlynol) yn y Saesneg.
- **Crynhowch** gynnwys y darn (i draean y gwreiddiol) gan gofio:
  - cynnwys ffeithiau yn unig;
  - peidio ychwanegu eich barn / eich syniadau eich hun.
  - osgoi ailadrodd
  - defnyddio eich geiriau eich hun.
  - cadw'r brawddegau yn weddol fyr.

**TRAFODWCH:**
Sut a phryd byddech chi'n defnyddio'r testun yn eich dosbarth?

- Cofiwch wirio eich sillafu, cenedl enwau, treigladau a threfn brawddegau.
- Gallwch ddefnyddio rhaglen Cysill i wirio'ch gwaith.

# MALALA YOUSAFZAI

Champion for education for women and girls



## EDUCATION FOR EVERYONE

Malala was born in a shack in the mountainous Swat Valley of northern Pakistan in 1997. Her father, Ziauddin, and her mother, Tor Pekai, named their daughter after a female Afghan hero who led a battle against the British. Little did they know that their own Malala would grow up to be a warrior, too.

> "If people were silent, nothing would change."

Malala's family are from the Yousafzai tribe of the Pashtun people, who live in northern Pakistan and in Afghanistan. Like nearly all Pashtuns, they are Muslim and believe deeply in the teachings of the Qur'an. Tor Pekai left school at the age of six, when she realised that she would never get a job and would be expected to stay at home. But Ziauddin became a teacher and started a school, called Khushal School, because he believed that everyone has the right to education, no matter who they are.

In northern Pakistan, many marriages are arranged, but Tor Pekai and Ziauddin married for love and were very happy. Like her younger brothers, Khushal and Atal, Malala enjoyed her studies at school . . . until things started to change.

Malala Yousafzai



## TALIBAN TERROR



Malala (right) with her parents and younger brothers

The Taliban is a group of extreme Pashtuns, who fought their way to power in Afghanistan, just over the border from where Malala and her family lived. Their rules meant that girls could not go to school and women were allowed to leave the house only with their father, husband or brother.

After a terrible earthquake, things became even more difficult when the local Taliban leader told people they had to stop dancing, playing games, watching TV and listening to music. They forbade girls from going to school. Malala kept going to school in secret for as long as she could, wearing ordinary clothes instead of her uniform and hiding her books.

> "One child, one teacher, one book, one pen can change the world."





Malala's father disagreed with the Taliban and spoke out against them on the radio. Malala joined her father, speaking to journalists and helping to make a documentary about her experience as a girl living under Taliban rule. She started a blog writing as 'Gul Makai', a female Pashtun hero who tried to teach people that fighting was wrong. Although the Taliban often beat and even killed people who did not obey them, Malala and her family continued to fight against the Taliban's rules, and her mother decided to start reading lessons.

In 2011, Malala received Pakistan's first National Youth Peace Prize and was nominated for the International Children's Peace Prize. This made the Taliban so angry that they decided to kill her. On 9 October 2012, as she rode home from school on the bus, two masked Taliban gunmen shot her in the head. The bullet went through her neck and shoulder, and two of her friends were injured as well. Malala survived, but she was so badly injured that she was flown to Birmingham in the UK for treatment. Her family joined her soon after. After many operations to repair her hearing and the nerves in her face, she finally left hospital in January 2013.

## SHAKING THE WORLD



Malala at the Nobel Peace Prize concert in Oslo, Norway

The whole world was united in their anger at the Taliban for trying to kill a schoolgirl. A petition with over two million signatures encouraged the government of Pakistan to create a new law, allowing all girls education. It was too dangerous for Malala and her family to return home, so the Pakistani government gave Ziauddin a job in education at the embassy and the family stayed in Birmingham. Malala began school in England, and did so well that she earned a place to study at Oxford University.

Malala continues to campaign for the rights of women and girls everywhere, meeting powerful leaders and speaking all around the world. She has received many honours and awards, including the Nobel Peace Prize in 2014. The youngest person ever to have received the award, she donated all the prize money to start a new secondary school for girls in Pakistan. A warrior of words, Malala has shown how one girl really can change the world.







> "Let us pick up our books and our pens. They are our most powerful weapons."

# Munud i feddwl ...

Pa dechnegau caffael iaith a ddefnyddiwyd yn y ddarlith hon?



Grŵp o dri



Gwaith pâr



Tasg ysgrifennu



Help llaw



Tasg wrando





# Da iawn chi!

Cymraeg

# Daliwch ati!